



Llun: Marc Hughes ym Mae Penrhyn, diwrnod Nadolig 2010

Aderyn y Mis

GIACH BACH (jack snipe yn y Saesneg)

Mae'r giach bach yn brinach na'i "frawd" mwy, ac yn llai ei faint. Un nodwedd ohono yw ei duedd i lanio'n syth ar ôl codi wrth eich traed mewn braw.

Enwau eraill ar y giach cyffredin yn ôl rhestr enwau adar Dewi Lewis (Gwasg Carreg Gwalch): ysniden, sneipen y fyniar a gafr y gors (oherwydd y "fref" a wna gyda phlu ei gynffon wrth arddangos ar ei diriogaeth)

Blwyddyn y Gwningen

Yn Tsieina mae hi'n flwyddyn y wningen [Rhifyn 37] a phan ddaeth yn flwyddyn newydd, ar y 3ydd o Chwefror, mi gafodd



Llun: Eifion Griffiths

groeso mwy nag arfer. Yno, mae'r blynyddoedd yn cael eu cysylltu â ryw 'nifail, neu'i gilydd mewn cylch o 12, sy'n golygu mai 1999 oedd blwyddyn y wningen dd'wytha a 2023 fydd y nesa. Pam y croeso? Wel, am fod y wningen yn greadures ddigynnwrf ac yn arwydd o sefydlogrwydd. Ac yn Tsieina mae angen hynny yn dilyn llynedd, oedd yn flwyddyn y teigar – sy'n greadur go ffyrnig – pryd cafwyd blwyddyn go hegar o ran yr economi a thrychinebau naturiol, fel daeargrynfeydd a llifogydd. Mi oedd pobol mor falch o weld blwyddyn y wningen nes y cododd yr indecs Feng Shui – sef eu mesur nhw o werth cyfranddaliadau ar y gyfnewidfa stoc. Ond, mi ddylsen ni gofio un peth (ac e'lla mod i'n holhti blew yn fa'ma rwan)

– mai nid blwyddyn y wningen ydi hi go iawn, ond blwyddyn y sgwarnog – oherwydd does na'm gw'ningod gwyllt yn Tsieina! Ond mae 'na 7 math o sgwarnog. Mi gyflwynwyd gwningod dof, ar gyfer eu b'yta, i Tsieina, o Ewrop ryw 2 – 3 canrif yn ôl. Ac am nad oedd enw gwahanol yn yr iaith Tsieinaidd am wningen, dydyn nhw ddim yn gwahaniaethu rhwng y naill na'r llall. Felly, blwyddyn y sgwarnog ydi hi i'r Tsieinaid. Ond am fod delwedd y sgwarnog bach ar eu calendrau nhw mor wningllyd mae pobol y gorllewin yn cymryd mai blwyddyn y wningen ydi hi. Mae gwningod, lle bynnag mae nhw i'w cael ar draws y byd, wedi procio dychymyg pobol – yn destyn straeon di-ri, a chorff mawr o goelion a llên gwerin. Ro'n i wrth fy modd yn Ysgol Bach Clynnog ers talwm pan fydda' Mr Wiliam Sgwyl yn darllen straeon Br'er Rabbit â'i gyfrwystra yn dianc rhag B'rer Fox neu B'rer Bêr. Straeon caethweision America oedd y rhain yn wreiddiol, ac yn seiliedig ar straeon o Affrica am y sgwarnog ddireidus, sy' o hyd yn chwarae triciau ar yr eliffant a'r llew a'r haîna. Y bychan yn trechu'r mawr ynde? 'Os na fyddi gryf, bydded gyfrwys'. I Geltiaid y cyfandir, mi fydda cwninen, am ei bod yn bridio mor doreithiog, yn symbol grymus o ryw, ffrwythlondeb, ac atgyfodiad bywyd yn y gwanwyn o farwolaeth oerllyd y gaeaf. Ac mi barhaodd y wningen, a'r wÿ – sy'n symbol cry arall o ail-enedigaeth y gwanwyn, yn boblogaidd hyd heddiw, fel ryw ychwanegiadau seciwlar, siocledaidd, i ddatliadau'r Pasg. Mi aeth rhai, yn Mericia, ati i ecsploetio'r cyswllt symbolaidd rhwng y wningen â rhyw, i'w dibenion ariangar eu hunnain a sefydlu cylchgrawn o'r enw 'Playboy' ('dwi ar dd'allt ei fod o ar gael yma hefyd) a chadwen o Glybiau Byni i ddennu pobl (dynion ran fwy), i weld rhyw sioeau go bedachingalwfo, ond diniwed 'fyd, a lle mae nhw'n cyflogi merched ifanc deniadol iawn i weithio tu ôl i'r bar ac i weinyddu'r byrddau – a rheiny heb ryw lawer iawn amdany'n nhw a pishyn o fflyff gwyn, fatha cynffon gwningen, ar eu penola nhw! Rhain ydi'r 'Byni Gyrls'. Hm!?


Mi fydda hen Geltiaid y cyfandir yn ystyried bod y wningen, am ei bod hi'n tyllu dan y ddaear, yn medru mynd a dod rhwng ein byd ni âg Annwfn, neu'r arall-fyd. Dyma pam y gwaherddid byta cig gwningen, rhag ofn mai un o'ch perthnasau marw chi (eich nain chi, e'lla) oedd wedi dwad i'n byd ni ar ymweliad – ar ffurf gwningen. Na, doedd y Celtiaid ddim yn credu mewn canibaliaeth. Ond mi oedden nhw'n credu y gallasai gwrach newid ei ffurf a throi'n wningen (h.y. ar y cyfandir), a sgwarnog yma – oherwydd doedd dim gwningod yng Nghymru tan i'r Normaniaid eu cyflwyno nhw, ryw 900 mlynedd yn ôl. Mi awn ni ar ôl hynny y tro nesa...

Addasiad o sgript Galwad Cynnar gan Twm Elias ar (gyda chaniatad y BBC)


Cywiriad: Yn y rhifyn diwethaf honnwyd yn anghywir mai o dde America y daeth y gwningen yn wreiddiol. Na, anifail Ewropeaidd ydyw; haint y gwningen, sef y micsamatoxis, sydd yn dod o'r fan honno. Gol.

penllanw uchaf Enlli 18ed am 07:54 (9.9m)

Cogau Cyntaf



Dyma graff yn dangos faint o ddyddiau ar ôl 1af Ebrill y clywyd y gog gyntaf mewn 19 o wahanol flynyddoedd ers 1888. Dengys y llinell wastad trwy'r cofnodion nad oes lot wedi newid!



Roedd Thomas Bewick o Northumberland a luniodd y 'sgythriad hon yn arlunio ddechrau'r 19eg ganrif ac yn gwybod, diolch iddo lythyru gyda'r naturiaethwyr mawr o Gymro Thomas Pennant a'r Sais Gilbert White, bod adar yn mudo.

Meddai Thomas Bewick: "The Cuckoo visits us in spring, the well known cry of the male [benyw yw'r gog o hyd i'r Cymry!] is commonly heard about the middle of April, and ceases at the end of June: its stay is short, the old birds quitting this country early in July". Tanlinellir gwybodaeth sydd yn awgrymu bod TB o flaen ei amser.

Cofnodi Poer y Gwcw

daeth i'r amlwg wth gofnodi o hen ddyddiaduron bod poer y gwcw yn bwsig i'r hen bobl.

Towyn 18 Gorffennaf 1922: *Extraordinary amount of Cuckoo Spit this year, but all disappeared, almost as suddenly, last week.*

Tywyn 27 Mai 1923: *Still cold winds. Cuckoo spit just beginning.*

Dyddiadur [Parch.?] Thomas

Bwlchtocyn 25 Mai 1928: gweld poeri gog Dydd J. Owen Jones
Ac i'r bobl nad ydynt gobeithio cweit mor hen!:

Morfa dyffryn: 25 Mai 1977: *cuckoo spit*

Waunfawr 19 Meh 1988: poer y gwcw yn helaeth yn y gwrychoedd yn Groeslon, Peter ac Anona yn dweud yr un fath tua'r Bermo .

Waunfawr: 2 Meh 1989 poer y gwcw yn blastar yng ngwaelod yr ardd ar y chwyn


Waunfawr: 2 Gorff 2006: dim poer y gwcw i'w weld (gweler y diwrnod hwn yn 1989) Llyfr Maes DB

Dilynwch yr olyniaeth...cofnodwch boer y gog yn eich ardal chi


Dyma beth ydi prawf..

Mae'n sefyll i reswm bod eira yn fwy parhaus yn y mynyddoedd nac yn y gwaelodion. Ond mae'n cymryd

CYD-BERTHYNAS DYDDIAU A GORCHUDD NEU LUWCH EIRA
GYDAG UCHDWR (5 GAFAF, 1944-54, ERYRI)



gwaith i'w brofi. Dyma graff wedi ei seilio ar ddata Les Larsen o'r nifer o ddyddiau o eira ar 9 copa o wahanol uwchder (yn ogystal â Chaernarfon!). Mewn gair, mae parhad yr eira yn dyblu gyda phob 600 o droedfedd o uchder ychwanegol.



Llifogydd
Queensland

Lluniau drwy garedigrwydd teulu Marian Elias

lleuad llawn y mis 18 Ebrill

Cyfnod Eira, Chwefror - Mawrth 1937

24 Chwefror; Llansilyn, Sir Ddinbych: Diwrnod rough a bwrw Eira

Dyddiadur Hugh Jones Blaenycwm

27 Chwefror: severe gale and snowstorm

Albert Wilson Trans LI cOI Bay & District Field Club

107mph gust of wind recorded at Holyhead

Huw Holland

Esgairdawe: a terrible day - rain, snow, hail & wind

Dydd'r Defi Lango

Llansilin: Diwrnod rough a bwrw Eira.

Dyddiadur Hugh Jones Blaenycwm.



Cricieth 28 Chwefror 1937

Ffordd o Griccieth am Port yn edrych i waelod Rhiw Caerdyni. Y tŷ ar y dde lle mae'r ffordd yn arwain i lawr i lan y môr. Bryniau Ystumlyn hefyd tu cefn iddo. Y tŷ ar y chwith oedd Fferm Caerdyni yn dŷ preifat heddiw. Mae arlliw o Foel y Gest yn y pellter.

Tom Jones

Golau stryd nwy yd'r polyn syth wrth ymyl y ddau ddyn ar y chwith (Gol.)

Llun trwy law Ann Jones

Tywydd am weddill y cyfnod

28 Chwefror; Esgerdawe: *A worse day than yesterday - a regular blizzard, picked 4 sheep from under drifts & 6 missing again. Wind NW & at it tonight again I'm afraid.*

Dyddiadur Defi Lango

28 Chwefror; Llansilin, Sir Dinbych: Diwrnod rough iawn a chwythu Eira trwy'r dydd.

Dyddiadur Hugh Jones Blaenycwm.

Mis Mawrth; The Fens (dwyrain Lloegr): *In one of the recurrent flood crises in the Fens over the years, in March 1937 a steam locomotive hauls a local service gingerly through rising waters at Littleport, Cambridgeshire, where the Great Ouse and many smaller rivers have burst their banks, under the pressure of heavy rains and high tides pushing in from the sea. The Times blamed 'inconsiderate sightseers' in their cars for hampering the battle to stem the waters, and invoked the watchful spirit of Hereward the Wake to improve vigilance in the future*

www.timesonline.co.uk

13 Mawrth; Dyffryn, Capel Curig: *All day blizzard at Dyffryn results in huge drifts, closing the road from Betws-y-Coed to Llanberis for weeks burying thousands of sheep - snow came without warning, followed by weeks of freezing weather and another great snowfall on 24 March - finally a thaw set in around 28th - but the high mountains remained encased in ice and deep frozen snow till April*

I Bought a Mountain, Thomas Firbank

16 Mawrth; Llansilin, Sir Ddinbych: ... efo'r defaid ar wŷn. Dechreu meirioli

Dyddiadur Hugh Jones Blaenycwm

Mwy am liwiau od



Buom yn cerdded ar draeth Afonwen 28/2/2011 a gwelsom y biden fôr hon. Mae'n amlwg yn biden fôr ond ei phen a'i chefn yn hollol annisgwyl. Credaf mai'r term Saesneg am hyn yw

'leuchistic' - beth yw'r gair Cymraeg?

Gareth Jones

Llên y llanw a'r gwynt

Ar ddiwrnod gwyntog, pan oedd Clwb Rygbi Caernarfon yn arfer chwarae ar lan y Fenai yn y 1970au, byddai'r capten, Peter Doughty, yn holi un o'r bechgyn beth oedd yn mynd i ddigwydd efo'r gwynt y diwrnod hwnnw. Wrth edrych ar y llanw, byddai'r bachgen yn y tim, yn holi ei dad, a oedd yn un o bysgotwyr y dref. O weld sefyllfa'r llanw, roedd y capten yn cael gwybodaeth ynglyn a'r gwynt, a byddai'r wybodaeth yn wir pob tro. Roedd hyn yn fantais i Gaernarfon yn y gêm ar y diwrnodau hynny.

Ymhellach i hyn, Tony Lovell y 'sgotwr o Gaernarfon ddywedodd wrthai y dydd o'r blaen fel oedd ei ewythr yn dweud wrth yr hogia tra oeddynt allan ar gwch ar y Fenai, rhywbeth fel hyn - hen wynt hegar 'ma, fe eith o i lawr efo'r llanw.

Ifor Williams

Dim "llanw isel", plis!

...meddai Glenys Jones. Mae hogia ifanc o Aberdaron yn cytuno nad oes yna'r fath beth â llanw isel.

llanw - pan mae'r mor i mewn,

llenwi - y broses o'r llanw yn dod i mewn. ('Mae'n llenwi'n gyflym hogia

pen llanw - *high tide* ' Mae yna **llanw uchaf** wythnos nesa': cyfeira hyn at '*spring tide* pan mae'r môr yn uwch na'r arfer rhyw ddwywaith dair y flwyddyn.

gorllan - pen llanw.

llynell gorllan - 'high tide mark', y llynell a welir ar y creigiau sy'n dangos pa mor uchel y mae'r môr yn codi.

traf - y môr allan 'Mae hi'n **treio**' - y broses o'r môr yn mynd allan (*ebbing*)

distyll - y traif pella. Dywed pysgotwyr 'awn ni allan ar y distyll' (y pysgod yn dwad i mewn efo'r llanw) h.y. fel mae'r môr yn troi ac yn dechra llenwi eto

Mae **traf mawr** yn syrthio i'r un categori a **llanw uchaf** sef y pellter mwya ar '*Spring tide*' e.e. ar draif mawr mae'n bosib gweld olion yr hen goedwig ar draeth Porth Neigwl. Efallai fod yna erbyn heddiw ddefnydd o 'ben traif' yn hytrach na distyll, ac o ddewis, mae hynny yn well na llanw isel.

Gair i gall Mr. Golygydd!

Eurych

Bôn y gair eurych yw aur. Yr ystyr oedd crefftwr sy'n gweithio gydag aur, crefftwr teithiol yn yr oesoedd canol wrth gwrs. Wrth i gymdeithas a'r economi ddatblygu dichon bod gwaith yr eurych proffesiynol wedi ehangu a wedyn bod y werin wedi dechrau defnyddio'r gair am unrhyw weithiwr crwydrol ac felly mi gawson ni'r gair yn datblygu'n air am dincar. O ran y sillafiad mae 'na gryn dipyn o amrywio rhwng 'e' ac 'y' (y sain glir) yn y Gymraeg. Dw i'n amau mai pan fo'r llafariad yn ddiacen y digwydd hyn. Felly'r ydyn ni'n cael amrywio edrych> edrech. Pan ogledd-orllewineiddiwyd y gair cawsom edrach. Os iawn y cofiaf dyddia'r dystiolaeth gynharaf o a > e mewn sillaf ôl-acennog o'r unfed ganrif ar bymtheg. Byddai hyn yn egluro'r ffurf safonol eurych a'r ffurf lafar eurach.

Guto Rhys

Mesuriadau - o'r dyddiaduron

iygyn o wair neu redyn (Bwlchtocyn)

baich o wair, eithin, rhiwbob (Pen Llyn a Sir Ddinbych)

clenc o wair (Llansilyn, Dinbych)

slatied o wair, rhedyn neu bolion

siwrna o ddwr (Llangristiolus)

Melys moes mwy chi ddarllenwyr...

Touau moresg

Ym Mwletin 8 soniwyd am waith moresg Niwbwrch a'r defnydd o foresg gan Robert Bulkely Dronwy Môn yn 17^{fed}. Mae Eirwyn Wiliam yn ei lyfr "Y Bwthyn Cymreig" yn cyfeirio at y posibilrwydd o ddefnyddio moresg i doi ym Mon gan gryfed oedd y diwydiant yn ardal Niwbwrch, ond ychydig iawn sydd o son am foresg y tu allan i Fon, a dim hyd y gwelaf, o son am ei ddefnyddio ar gyfer toi. Dyna paham y mae'r gyfres o gofnodion ganlynol o ddyddiadur John Owen Jones, Crowrach, Bwlchtocyn (Diolch i deulu RG Williams) efallai yn datgelu cyfrinachau newydd am ein Diwydiannau Coll.

17 Awst 1923 Yn Crowrach pnawn yn tynnu to gwellt. Bwrw ron bach gyda'r nos.

Arwyddocad y cofnod hwn yw bod touau gwellt yn rhan o brofiad John Jones yn 1923. Ond dyma ddywedodd bedwar diwrnod ar ol hyn:

21 Awst 1923. Barbio bore ronyn bach. Yn Berth Ddu pnawm yn tynnu to, 42 swp i gyd.

To gwellt mae'n siwr oedd ar y Berth Ddu yn ol y cyfeiriad at sypiau.

22 Awst 1923 Barbio bore. ...Hel moresg ar ol te, 20 swp. Gwyntog iawn

Ac yna ar y diwrnod wedyn:

23 Awst 1923 Nol moresg bore. Berth Ddu yn toi. Bwrw yn arw.

Gellir dweud felly gyda chryn hyder i foresg gael ei ddefnyddio ym Mhen Llŷn i doi adeiladau. Pa fath o adeilad oedd y Berth Ddu tybed?

Gweler Bwletin 37 am foresg ym Mhwlheli.

Y gwyrddling neu'r helygen Fair



Dwi newydd offen darllen y llyfr 'The Bog People - Iron-age Man Preserved' gan P V Glob (ia, wir yr!), sef cyfieithiad o'r Ddaneg wreiddiol, ac yn ogystal â phob math o gyfeiriadau at hadau gwahanol blanhigion oedd yn stumogau pobl y gors a phail yn y mawn, meddwl

bod y canlynol yn ddifyr am y *Myrica gale*: " ... On the flat surface of the bog an aromatic fragrance spreads from the low vegetation of bog myrtle, the pointed earth-green leaves of which served to satisfy the taste for beer in the bog people's day and are considered by modern connoisseurs to be one of the finest aromatic ingredients in good Danish brandy." (gweler llun y label). Er bod dau enw eisoes yn rhestr y Gymdeithas am yr helygen dwi'n licio'r gair cwrlid, sef gair pobl Sir Feirionnydd, sydd mor addas wrth ddisgrifio'r ffordd y mae'r planhigyn yn gorchuddio darn o dir gwlyb.

Haf Meredydd

[Onid esblygiad o gwyrddling i gwrlid sydd gennym yma? Gol.]

Pôs y mis

Pa blanhigyn sydd wrth wraidd pob un o rhain:

llinyn, llinos, line

Tocyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cywir cyntaf i'w dderbyn gyda'ch cyfeiriad post cyn y 1af Mai trwy'r ffurflen Cysylltu ar wefan Llên Natur neu drwy'r ddolen hon:

www.llennatur.com/gwyn/cysylltuQuask.html

Dyfeisydd y pos hwn: Aled Jones, Rhuddlan

Ateb pos mis diwethaf: hwyaden wyllt. Yr enillydd oedd Dafydd Roberts, Y Bala

Talcen tarw

Beth yw talcen tarw? Enw o ardal Llanddewibrefi ar rhyw blanhigyn o'r mynydd yw e, ond pwy blanhigyn? Roedd ewyrth mam, sy wedi hen farw erbyn hyn, yn arfer edliw i fi cyn lleidedd o'e'n ni'r bobol ifainc yn ei wybod am yn mynydd, ac roedd dag e restr (fer iawn, o feddwl, a'r un rhestr bob tro!!) o blanhigion i brofi hynny, sef:

gwrychyn mochyn (*Nardus stricta*)

penllwydyn (*Eriophorum vaginatum*)

penllwydyn y waun (*E. angustifolium*)

corn carw (*Lycopodium clavatum*) - roedd hwn yn blanhigyn cyfrin slawer dydd

llygaeron (*Vaccinium oxycoccos*)

cruglys (*Empetrum nigrum*)

sidan bengoch (*Polytrichum commune*)

a thalcen tarw! Doedd e werth dim am ddisgrifio pethau, ond roedd brig y planhigyn 'yn gywir fel talcen tarw' - trionglog a thywyll, os deallais i'n iawn. Mi allen swnio'n debyg iawn i'r hen 'droellgorun', *Juncus squarrosus* i mi. Mae hwnnw yn fras, yn gyrllog ac yn tyfu'n wastad â'r llawr. Pan gewch chi lawer ohono'n tyfu'n glos at ei gilydd mae o'n union fel y blew ar dalcen tarw - disgrifiad da iawn ohono! Roedd y droellgorun yn hysbys iawn i ffermwyr mynydd a phan fyddid yn torri gwair rhos a hwn yn y cnwd (cnwd byr ac ysgafn iawn) mi fyddai, am ei fod mor galed a llawn silica, yn pylu min y bladur yn fuan iawn. Unrhyw syniadau eraill?

Gwyn Jones

..a pham roedd y corn carw yn gyfrin?

Meddai Gwyn eto: "mi ges y syniad yn gryf iawn bod rhywbeth cyfrin am y corn carw. 'Mi fyddet (ma'i'n debyg) yn mynd i edrych amdano fan lle gwelaist ti e ynghynt, a FYDDAI E DDIM 'NA er dyfal chwilo!' Mi 'naeth beth mawr o hynny wrth adrodd yr hanes! Yn ôl fy ewyrth, mi fyddai bois ifainc yn ei wisgo..wn i ddim pam? Fallai bod cliw yn nisgrifiad fy ewyrth o'r planhigyn, sef ei fod yn cadw'n las dros y gaef (fel y celyn a'r uchelwydd?). Arwydd o ffrwythlondeb? A fallai bod siap a 'habit' y rhan ffrwythlon ohono yn rhan o'r ateb hefyd?!!" Be sydd gan Gwyn yn ei feddwl tybed? (Mae llun a pheth o hanes rhyfeddol o corn carw i'w gael ym Mwletin 22)

Llyffethair o fwsogl

Glywoch chi am neud rhaff o'r sidan bengoch [*Polytrichum*



commune]? Mi ddangosodd 'newyrth i fi dros ugain mlynedd yn ôl sut i neud llyffethair ohono - peth handi iawn i aller i neud ar y mynydd. Ar ôl rhyddhau's pishys o sidan bengoch o wrth eu gilydd a'u neud yn bentwr, mi fachodd nhw a bys un llaw trwy'r llaw arall (oedd ar ffurf arwydd 'ok' dros y twmpath). Wrth eu troi a'u plethu, roedd y gorden a nawd yn cael ei dala yng nganol y llaw oedd yn troi, ar siap malwen (h.y. yn cyfyngu ar ei gallu i droi yn rhydd). I fennu, mi ddyblodd y rhaff (a thrwy hynny

wrthneud grym y troi wrth gwrs) a wedyn agor y bleth er mwyn rhoi un pen trwy blethau'r llall. Wrth feddwl, dim llyffethair *sensu stricto* oedd e, ond cylch - torch oedd ei enw amdano. Mi'i rhoid rownd gwddwg y ddafad er mwyn rhoi ei throed drwyddi.

Gwyn Jones